Once Upon A Time Nursery
56 Railway Terrace
Llanelli
Carms
SA15 2RH

CIW W130000376

Once Upon
A Time
Day Nursery

Website
www.llanellinursery.co.uk
Phone
01554 785 173
Email
enquiries@llanellinursery.co.uk

# Dyletswydd Prevent a Pholisi Radicaleiddio

| Cymru: SGC |
|---|
| 20.1 - 20.6 |

**Eithafiaeth – Dyletswydd Prevent**
Dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 mae gennym ddyletswydd i gyfeirio unrhyw bryderon ynghylch eithafiaeth ar yr heddlu (Mewn ardaloedd blaenoriaeth Prevent bydd gan yr awdurdod lleol arweinydd Prevent sydd hefyd yn gallu darparu cymorth).

Gall hyn fod yn bryder dros newid mewn ymddygiad plentyn, aelod o'r teulu neu oedolyn sy'n gweithio gyda phlant yn y lleoliad, sylwadau sy'n peri pryder neu weithredoedd sy'n gwneud i staff boeni am ddiogelwch plentyn yn eu gofal.

Ochr yn ochr â hyn byddwn yn effro i unrhyw arwyddion cynnar mewn plant a theuluoedd a all fod mewn perygl o gael eu radicaleiddio, a byddwn yn gweithredu ac yn dogfennu pob pryder wrth adrodd ymhellach.

Dywed yr NSPCC y gall arwydd o radicaleiddio fod ar ffurf:
- Ynysu eu hunain oddi wrth deulu a ffrindiau
- Siarad fel petai o araith wedi ei sgriptio
- Anfodlonrwydd neu anallu i drafod eu barn
- Agwedd amharchus tuag at eraill sydd yn ddatblygiad sydyn
- Cynnydd mewn lefelau dicter
- Bod yn fwy cyfrinachol, yn enwedig wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Byddwn yn mynd i'r afael â radicaleiddio drwy:
- Hyfforddi holl staff i ddeall beth mae'r Ddyletswydd Prevent a radicaleiddio yn ei olygu
- Sicrhau bod staff yn deall sut i adnabod arwyddion cynnar o radicaleiddio posib a bygythiadau terfysgaeth ac i weithredu arnynt mewn modd priodol yn unol â chanllawiau cenedlaethol a lleol
- Gwneud unrhyw gyfeiriadau sy'n ymwneud ag eithafiaeth i'r heddlu mewn modd amserol, gan rannu gwybobaeth berthnasol fel sy'n briodol
- Sicrhau bod awyrgylch gynhwysol yn ein meithrinfa, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a safbwyntiau negyddol a dysgu plant i fod yn oddefgar.